

## 2017 Rhif 63 (Cy. 27)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

#### Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llandeilo i Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2017

*Gwnaed* 24 Ionawr 2017

*Yn dod i rym* 31 Ionawr 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llandeilo – Caerfyrddin (yr A40) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a/neu cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o’r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i’r cyhoedd ac oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Ionawr 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llandeilo i Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2017.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

---

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r luoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y darn(au) o'r gefnffordd” (“*the length(s) of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd rhwng Llandeilo a Chaerfyrddin yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r luoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Gwaharddiad a Chyfyngiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Ni chaiff neb reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

### **Atal Dros Dro**

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

### **Cymhwyso**

6. —(1) Ni fydd y cyfyngiad a'r gwaharddiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

## **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

24 Ionawr 2017

*Nina Ley*

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

## **YR ATODLENNI**

### **ATODLEN 1**

#### **Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ochr orllewinol Cylchfan Llandeilo, Llandeilo hyd at ochr ddwyreiniol Cylchfan Glangwili, Caerfyrddin.

### **ATODLEN 2**

#### **Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 240 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4310 i Nantgaredig hyd at bwynt 1.36 cilometr i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd Dosbarth III yr C2050 i Felin-wen.